**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2025 wedi'i gadarnhau**
**Cynhaliwyd yn 3.7 CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams**
**Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-Gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu iechyd a Sgrinio |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Jo Peden | (JP) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Ochr Staff |

*Dechreuodd y cyfarfod am* ***10:35***

Wedi'i Gadarnhau

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** |

Croesawodd PB bawb i'r cyfarfod a oedd yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn CQ2 ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r trafodion ar-lein.

**Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau** a restrir uchod.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/2** | **Datganiadau o Fuddiant** |

Gofynnodd NE am Ddatganiadau o Fuddiant heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. Nid oedd unrhyw rai.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/3** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
| **ICC 2025.01.30/3.1** | **Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol** |

Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, tynnodd TC sylw at rai uchafbwyntiau allweddol:

- Croesawodd TC Pippa Britton fel Cadeirydd newydd i'w chyfarfod Bwrdd ffurfiol cyntaf ers dechrau yn ei swydd ar 1 Rhagfyr 2024.
- Diolchodd TC i NE am ei gyfraniad rhagorol a'i gefnogaeth i'r Sefydliad yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd Dros Dro, a nododd ei fod wedi ailafael yn ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.
- Amlygodd TC gyfarfod atebolrwydd canol-blwyddyn y Cyd-Dîm Gweithredol (JET) gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar/Prif Weithredwr y GIG a'u huwch dîm yn Llywodraeth Cymru. Gwnaeth TC sylwadau ar y cyfarfod adeiladol a oedd yn canolbwyntio ar berfformiad, strategaeth a datblygu trywyddau.
- Tynnodd TC sylw at gyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, gan roi sylwadau ar y ffocws a'r sgwrs amserol ynghylch atal, gyda phwyslais ar ddiabetes a phwysau iach, clefydau heintus ac iechyd meddwl a llesiant.
- Amlygodd TC ymweliadau â swyddogion Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Sefydliad Iechyd y Byd Ewrop a Llywodraeth Cymru, a thynnodd sylw at gyhoeddiad Sefydliad Iechyd y Byd a gyd-gynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, '[Archwiliad Manwl o Wlad ar yr Economi Llesiant:]() Cymru'.
- Aeth TC ymlaen i dynnu sylw at adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ['Buddsoddi mewn Cymru Iachach: 'blaenoriaethu atal]()', a ddatblygwyd gan y tîm Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, a edrychodd ar y dystiolaeth fwyaf diweddar a oedd yn canolbwyntio ar yr ymyriadau atal sy'n darparu'r effaith fwyaf ar ganlyniadau iechyd a'r elw mwyaf ar fuddsoddiad. Gan fyfyrio ar effaith yr adroddiad, rhoddodd JP y wybodaeth ddiweddaraf am y lledaenu eang a'r ymgysylltu cadarnhaol yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, a thynnodd sylw at y ffaith bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid, Mark Drakeford yn gofyn am gyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer atal.
- Amlygodd TC y ffaith bod Canolfan Firoleg Arbenigol Cymru wedi ennill 'gwobr GIG Cymru 2024 am ddiwylliant tîm' a oedd yn cydnabod bod eu tîm amlddisgyblaethol

Wedi'i Gadarnhau

yn gweithio gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Ymddiriedolaeth Hepatitis C i gyflawni hyn.

Diolchodd PB i TC am y trosolwg a gwahoddodd gwestiynau gan y Bwrdd.

Gwnaeth SG sylw am ragoriaeth yr adroddiad Buddsoddi mewn Cymru Iachach: blaenoriaethu atal, ac yn arbennig ei ddull o ddadansoddi economaidd ac effaith pobl hŷn yn ogystal â'r ffocws ar y sector blynyddoedd cynnar. Estynnodd SG ei llongyfarchiadau hefyd ar yr effaith fyd-eang, y cydweithio a'r cynnydd gyda Sefydliad Iechyd y Byd a hyrwyddo a dathlu'r rôl arweinyddiaeth y mae'r Sefydliad wedi'i chyflawni.

Daeth PB â'r diweddariad i ben drwy longyfarch TC ar ei hanrhydedd haeddiannol fel Swyddog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE) yn rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Brenin ar gyfer 2025. Diolchodd TC i'r Bwrdd am eu cymorth cadarnhaol, gan ddiolch i bob tîm o fewn y Sefydliad am eu cefnogaeth.

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr.

| **ICC 2025.01.30/3.2** | **Trosolwg Diweddaraf o Iechyd y Cyhoedd** |
|---|---|

Cyflwynodd IB y Dangosfwrdd Trosolwg Iechyd y Cyhoedd diweddaraf, ac amlygodd y canlynol:

- Roedd nifer y bobl a ddywedodd eu bod yn ei chael hi'n anodd talu rhent, gwneud taliadau morgais neu dalu biliau wedi aros yn sefydlog, ond roedd yn dal yn gyfran sylweddol o'r boblogaeth.
- Roedd rhestrau aros yn parhau ar lefel sylweddol, ac roedd angen mynd i'r afael â hyn fel rhan o waith ar ddisgwyliad oes iach.
- Arhosodd data ymddygiad iach yn sefydlog ar y cyfan, ond nodwyd rhai dangosyddion o bryder ynghylch alcohol y byddai angen eu monitro ymhellach.
- Roedd gwaith yn dal i fynd rhagddo i gasglu data mewn perthynas â fepio.
- Roedd cyfraddau ysbyty yn ymwneud â COVID yn sefydlog, ond roedd angen gwaith i gynyddu nifer y rhai a oedd yn cael eu brechu ar gyfer COVID a ffliw.
- Roedd cyfradd heintio C-difficile yn ardal Bae Abertawe yn gwella.

Amlygodd TF y canlynol:

- Cyhoeddwyd achos o ffliw adar dynol, a bod gweithio'n agos yn cael ei wneud ynghylch hynny.
- Parhawyd â gweithio'n agos gydag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU i fonitro achosion M-Pox
- Roedd cyfraddau ffliw yn parhau ar lefelau uwch, a byddai hyn yn parhau i gael ei fonitro.

Nododd KY y gellid gwneud gwaith i gyrchu data o sgyrsiau ac ymchwil sy'n digwydd o fewn cymunedau, er mwyn gwella ac ehangu ar y data monitro a gasglwyd. Amlygodd JM fod y diffyg data ar fepio oherwydd bod y data amcangyfrif yn seiliedig ar ddata arolwg, nad oedd yn darparu gwybodaeth am grwpiau oedran penodol, a bod hyn oherwydd argaeledd ffigurau a rennir gan fanwerthwyr.

Wedi'i Gadarnhau

Gofynnodd SG sut y byddai'r ffigurau alcohol oedd yn codi yn cael eu monitro. Nododd IB y byddai JM yn monitro hyn fel rhan o waith yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau ac y byddai'n datblygu asesiad o anghenion ynghylch hyn.

Diolchodd PB i IB am y diweddariad.

Bu'r Bwrdd **yn trafod** ac yn **craffu** ar Adroddiad y Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym a nododd y meysydd penodol o ddadansoddi data sydd ar y gweill.

| ICC 2025.01.30/3.3 | Adroddiad Perfformiad Integredig (Mis 9), Adroddiad Cyllid |
|---|---|

Cyflwynodd HG yr Adroddiad Cyllid i'r Bwrdd a thynnodd sylw at y canlynol:

- Nodwyd bod y siart ar Dudalen 117 yn dangos y byddai'r gwariant mwyaf eleni yn y 3 mis nesaf, a fyddai'n cael ei reoli'n ofalus.
- Amlygodd bod gan bob Cyfarwyddiaeth gynlluniau gwariant sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Nodwyd baich ar y rhaglen gyfalaf ym mis olaf y rhagolwg, gan esbonio bod disgwyl i hyn ddod yn gynharach yn y flwyddyn, ond ei fod wedi'i ohirio oherwydd proses gaffael helaeth.
- Nodwyd gwariant posibl o ran costau parhaus profion Covid. Ychwanegodd y bu gwaith sylweddol gyda Llywodraeth Cymru a'r tîm Diogelu a Sgrinio Iechyd (HPSS) i leihau'r costau.
- Amlygodd risg i'r system yn mynd i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf, gan fod rhai o'r arbedion wedi bod yn anghylchol eleni.
- Hysbysodd y Bwrdd nad oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar 30 Ionawr, wedi derbyn ei ddyraniad ar gyfer y flwyddyn nesaf gan Lywodraeth Cymru.
- Nododd bod y sefydliad ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i adrodd ar sefyllfa adennill costau erbyn diwedd y flwyddyn.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y Bwrdd ar yr Adroddiad Cyllid.

Esboniodd HG fod yr adroddiad IPR wedi'i adnewyddu i ganolbwyntio ar ddarparu mewnwelediadau gweithredadwy a sicrwydd tra'n nodi meysydd i'w gwella ymhellach ar draws holl adrannau'r adroddiad. Ychwanegodd HG, yn dilyn cytundeb yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi, fod adroddiad mis 9 wedi cyflwyno diweddariad newydd ar anghydraddoldebau. Byddai diweddariad ar waith yn ymwneud ag anghydraddoldebau yn cael ei adrodd bob deufis, yn unol â chyfarfodydd Bwrdd ffurfiol. Amlygodd HG y ffaith bod dogfen ychwanegol 'Data Anghydraddoldebau Iechyd' wedi'i chynnwys yn yr Atodiad ar dudalen 190, a ddarparwyd gan SA.

**Llywodraethu ac Atebolrwydd**

Nododd NE fod dros 1,000 o ddiwrnodau o absenoldeb salwch wedi'u nodi fel 'Gorbryder/straen/iselder/salwch seiciatrig arall'. Holodd NE a oedd hwn yn faes sy'n peri pryder. Cytunodd NL mai dyma oedd ein prif reswm dros absenoldeb o hyd, er y bu

Wedi'i Gadarnhau

buddsoddiad mewn hyfforddiant a chymorth i reolwyr yn y maes hwn. Ychwanegodd NL fod adborth o'r Arolwg Staff hefyd wedi helpu i ddeall heriau penodol, a oedd yn rhan o'n hymgysylltiad parhaus â staff, ynghyd â gwaith gyda'n Rhwydweithiau Staff.

Ychwanegodd PB fod arolwg Gwasanaeth Sifil wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar, a oedd yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i ble mae'r newid wedi digwydd o ran adrodd am broblemau cyhyrysgerbydol o gymharu â materion iechyd meddwl, lle nad oedd pobl efallai wedi dymuno siarad am iechyd meddwl o'r blaen.

**Cyflenwi Gwasanaethau**
Atgoffodd HG y Bwrdd y bu newidiadau i'r manylion a adroddwyd yn yr adran hon o'r adroddiad; roedd pob Cyfarwyddiaeth wedi bod yn canolbwyntio ar gofnodi pa Ddangosyddion Allweddol oedd yn ystyrlon i adrodd arnynt.

Nododd TF y bu gwelliannau mewn perfformiad sgrinio ers y cyfnod diwethaf, ond roedd y sefyllfa'n brin o gyrraedd y safonau cenedlaethol. Holodd SG pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran recriwtio Radiolegydd ar gyfer Gogledd Cymru, ac a oedd unrhyw strategaethau eraill yn eu lle i liniaru. Cynghorodd SH fod dulliau dosbarthu amgen yn cael eu hystyried yn y Gogledd; roedd hyfforddiant Cyflyru'r Fron wedi'i amserlennu gyda chydweithwyr ym Manceinion, ac roedd 2 Radiograffydd Ymgynghorol yn eu swyddi. Ychwanegodd SH fod yr agwedd telathrebu wedi'i chanoli i ddarparu mwy o gefnogaeth yn rhithiol.

Gofynnodd NE am ragor o wybodaeth ynghylch y mân doriadau a adroddwyd yn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) Ymchwil, Data a Digidol. Eglurodd IB y diffiniad o doriad mawr a bach a rhoddodd grynodeb o'r toriad hwn. Awgrymodd NE newid yr iaith o ran sut yr adroddir am fân doriadau i'r cyhoedd er mwyn ei egluro'n gliriach. Cytunodd PB fod mân achosion o dorri rheolau yn bwysig i'w hystyried, tra'n cydbwyso'r angen i ganolbwyntio ar y materion mwy strategol.

Mewn perthynas â data Dull Ysgol Gyfan, nododd KY y gwahaniaeth rhwng cefnogaeth ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a hunanwerthuso a chynllunio gweithredu. Eglurodd JM ein bod yn aros am ganlyniadau gwerthusiad gan Ganolfan Wolfson ym Mhrifysgol Caerdydd ar y Dull Ysgol Gyfan. Nododd JM y cyhoeddwyd bod capasiti i weithredu hyn, yn enwedig o fewn ysgolion uwchradd, a'r angen i ymgysylltu ag ysgolion a'u cefnogi. Nododd JM fod ESTYN a Llywodraeth Cymru i fod i gwrdd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i drafod hyn ymhellach.

Amlinellodd JM y gwaith presennol gyda Gweithrediaeth y GIG a'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Cenedlaethol ar yr asesiad o anghenion i adolygu'r llwybr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a symud y mewngymorth CAMHS i ysgolion i Weithrediaeth y GIG, gan gynnwys datblygu cynllun gweithredu ar iechyd meddwl plant.

Wedi'i Gadarnhau

Nododd PB y gellid darparu mwy o eglurder yn y data i egluro a oedd yn dangos cyfrannau'r ysgolion yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cysylltu â nhw neu nifer yr ysgolion a oedd wedi rhoi'r dull hwn ar waith.

Mewn perthynas â'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS), awgrymodd DC newid categorïau'r data yn y dyfodol er mwyn rhoi eglurder ar y darlun cyffredinol. Cytunodd JM a DC i drafod hyn ymhellach yn dilyn y cyfarfod.

**Cyflawni'r Strategaeth**
Cyflwynodd HG adran Cyflawni'r Strategaeth yr adroddiad a nododd y newidiadau i gerrig milltir ac i'r trosolwg o'r Rhaglenni Newid Strategol, gan gynnwys Ail-lwyfanu Sgrinio Babanod Newydd-anedig yn newid i Oren/Coch. Cododd HG fod yr 8 cais am Newid i'w cymeradwyo sydd wedi'u cymeradwyo gan y Tîm Gweithredol Busnes (BET).

Awgrymodd TR y byddai mwy o ffocws ar yr effaith yn ddefnyddiol yn yr adroddiad. Cytunodd TC â'r pwynt hwn, a nododd heriau hyn o fewn cyd-destun y system ehangach a sefydlu'r effaith a gafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar faterion ar lefel genedlaethol.

Amlinellodd TC y gwaith mewnol ar anghydraddoldebau, a diolchodd i TR am ymuno â Sesiwn Weithredol ddiweddar ar y pwnc hwn. Nododd hefyd ers hynny, y bu ymgysylltu â chymunedau yn y trydydd sector i ddatblygu'r gwaith hwn ar anghydraddoldebau ymhellach, gan gynnwys Rheoli Iechyd y Boblogaeth.

Cyfeiriodd TC at yr angen i egluro diffiniad cyson o 'anghydraddoldebau' er mwyn sicrhau bod y diffiniad yn cael ei gymhwyso a'i gyfeirio'n gyson o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Eglurodd JP fod gwaith yn mynd rhagddo ar draws y sefydliad i archwilio hyn er mwyn sicrhau eglurder.

Holodd NE a oedd 5 ffigur coch yn erbyn y flaenoriaeth strategol ar gyfer hybu ymddygiad iach yn peri pryder. Ymatebodd JM fod hyn yn bennaf oherwydd newid Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Sicrhaodd JM y Bwrdd bod cynnydd o ran gweithredu yn cael ei fonitro gan y gyfarwyddiaeth yn wythnosol.

Diolchodd PB i'r tîm am eu gwaith ar yr adroddiad.

**Cymerodd y Bwrdd sicrwydd** ar berfformiad a threfniadau llywodraethu'r sefydliad, cynnydd yn erbyn cyflawni ei strategaeth.

**Egwyl**

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/3.4** | **Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion Pwyllgorau** |

Darparodd NE ddiweddariad llafar o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2025.

Wedi'i Gadarnhau

Rhoddodd SG ddiweddariad llafar o gyfarfod y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2024, a thynnodd sylw at y ffaith bod papurau wedi'u hystyried ar:

- Iechyd Meddwl
- Monitro Cadw Gwyliadwriaeth ar Effaith
- Newid Hinsawdd

**Nododd** y Bwrdd yr adroddiad a **chymerodd sicrwydd** o'r cynnwys a'r diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod.

| **ICC 2025.01.30/3.5** | **Crynodeb o Bolisïau Corfforaethol** |
|---|---|

Wrth gyflwyno'r adroddiad, rhoddodd PV grynodeb o sefyllfa'r Polisïau Corfforaethol, gan nodi bod y Tîm Arwain a Phwyllgorau'r Bwrdd yn ystyried yn rheolaidd y cynnydd i adolygu polisïau ar draws y Sefydliad.

Amlygodd PV y ffaith bod 81% o'r polisïau yn gyfredol, a oedd yn welliant ar y 61% o bolisïau oedd mewn dyddiad y flwyddyn flaenorol. Pwysleisiodd PV y diweddariadau a ddarparwyd ar y camau gweithredu sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r polisïau nad oedd o fewn dyddiad adolygu, gan ddweud bod asesiad risg wedi'i gynnal ar bob polisi. Nododd PV fod y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Cymru Gyfan oedd wedi dyddio yn cyflwyno risg ganolig a gofynnodd i'r canllawiau cyfryngau cymdeithasol lleol a luniwyd i liniaru risgiau gael eu dosbarthu i'r bwrdd.
**Cam Gweithredu: LB**

**Cymerodd y Bwrdd sicrwydd** o'r blaenoriaethu a'r cynnydd a wneir i adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill.

| **ICC 2025.01.30/3.6** | **Hysbysiad Gwella Ymbelydredd Ïoneiddio Bron Brawf Cymru (BTW)** |
|---|---|

Cyflwynodd TF SH, Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio a roddodd ddiweddariad i'r Bwrdd ar yr Hysbysiad Gwella yn dilyn Arolygiad dirybudd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn Bron Brawf Cymru yn Llandudno Awst 2024.

Nododd fod yr arolygiad wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf.
- Darparu gofal diogel ac effeithiol.
- Cydymffurfedd â rheoliadau cyfreithiol o ran ymbelydredd.

Roedd pryderon yr Arolygydd a amlygwyd yn yr Adroddiad a'r graddfeydd amser byr a osodwyd ar y Sefydliad i fynd i'r afael â'r pryderon hynny wedi'u harchwilio a'u cynnal yn llawn.

Cafodd deuddeg gweithdrefn eu hadolygu, eu cymeradwyo a'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd erbyn y dyddiad cau, sef 23 Medi 2024, fel sy'n ofynnol yn yr Adroddiad. Dilynodd cyfres o sesiynau hyfforddi staff ac roedd yr holl staff bellach wedi cadarnhau eu bod wedi darllen a deall y gweithdrefnau hyn.

Codwyd y Gorchymyn Gwella ar 13 Rhagfyr 2024, a chyhoeddwyd yr Adroddiad yn gyhoeddus ar yr un diwrnod. Roedd AGIC wedi hysbysu'r Sefydliad o ddyddiad eu harolygiad

Wedi'i Gadarnhau

Wedi'i Gadarnhau

nesaf, yn Abertawe ar 8 a 9  o Ebrill ac wedi gofyn am gyflwyno gwybodaeth benodol erbyn 17 Mawrth 2025.

Gofynnodd NE a oedd materion dysgu neu faterion Iechyd a Diogelwch i gael sylw ehangach ar draws y Sefydliad. Cadarnhaodd SH nad oedd unrhyw bryderon pellach i fynd i'r afael â hwy ond eu bod yn adolygu unrhyw ddysgu y gellid ei gymhwyso ar draws y rhaglenni sgrinio eraill.

Diolchodd TC i MK, TF a SH am eu hymateb cyflym i fynd i'r afael â'r holl argymhellion yn yr Adroddiad a oedd yn caniatáu i'r Hysbysiad Cydymffurfio gael ei godi'n gyflym. Adleisiodd bwynt SH hefyd y gallai fod dysgu y gellid ei gymhwyso ar draws y Rhaglenni Sgrinio.

Sylwodd PB ar gyflymder yr ymateb gan uwch staff i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan AGIC ac awgrymodd y byddai adborth staff yn bwysig er mwyn egluro pa mor hawdd yr oedd staff yn gallu dilyn gweithdrefnau gan ddefnyddio dogfennau blaenorol.

Gofynnodd PB i SH adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn dilyn yr ail-arolygiad yn ôl yr angen.

Derbyniodd y Bwrdd **sicrwydd** bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mynd i'r afael â'r camau gweithredu a godwyd gan arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) Arolygiaeth Iechyd Cymru (IR(ME)R) yn Bron Brawf Cymru, Llandudno, ar 28 a 29 Awst 2024.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/3.7** | **Asesiad Strwythuredig** |

Cyflwynodd PV Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2024.

Nid oedd yr asesiad strwythuredig ar gyfer eleni, a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru, yn cynnwys unrhyw argymhellion newydd. Fodd bynnag, cydnabu ymdrechion parhaus i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol, yn enwedig o ran amseriad cyfarfodydd pwyllgor i sicrhau llif gwell rhwng y pwyllgor a'r Bwrdd, ehangu'r system olrhain archwiliadau i feysydd eraill ac alinio'r fframwaith sicrwydd yn well â'r proffil risg strategol.

Cadarnhaodd yr Asesiad Strwythuredig fod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru drefniadau llywodraethu effeithiol a dulliau cadarn ar waith.

Cymerodd y Bwrdd **Sicrwydd** gan yr Asesiad Strwythuredig a nododd y gwaith parhaus yn erbyn yr argymhellion.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/4** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **ICC 2025.01.30/4.1** | **Cofnodion a Log Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd (28 Tachwedd 2024)** |

**Cymeradwyodd** y Bwrdd Gofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2024 fel cofnodion cywir o'r cyfarfodydd.

**Ystyriodd** y Bwrdd y Camau Gweithredu agored ar y Log Gweithredu. Cymeradwywyd cau'r camau gweithredu a gwblhawyd.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/4.2** | **Cadarnhau Cam Gweithredu'r Cadeirydd / Sêl Gyffredin** |

**Nododd** y Bwrdd fod yna un achlysur lle cymerwyd Cam Gweithredu gan y Cadeirydd i **gymeradwyo** contract yn ôl y gofyn tair blynedd i Empyrean Digital Limited ar gyfer cyflawni cam Beta y rhaglen trawsnewid gwe am gyfanswm gwerth £651,953 ynghyd â TAW.

**Nododd** y Bwrdd na fu unrhyw ddefnydd o'r Sêl Gyffredin i adrodd i'r Bwrdd.

Gwnaeth y Bwrdd y canlynol:

- **Nodi** y cymerwyd Cam Gweithredu'r Cadeirydd ar un achlysur.
    - Cymeradwyo drwy Gam Gweithredu'r Cadeirydd gontract tair blynedd yn ôl y gofyn i Empyrean Digital Limited ar gyfer cyflawni cam Beta y rhaglen trawsnewid gwe am gyfanswm gwerth £651,953 ynghyd â TAW.
- **Nodwyd** na fu unrhyw ddefnydd o'r Sêl Gyffredin i adrodd i'r Bwrdd.
- **Cymerwyd sicrwydd** bod y cam gweithredu wedi'i gymryd yn unol ag Adran 8 o'r Rheolau Sefydlog.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/5** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **ICC 2025.01.30/5.1** | **Adroddiad Preifat y Cadeirydd** |

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad Preifat y Cadeirydd.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/5.2** | **Blaengynllun y Bwrdd** |

**Nododd** y Bwrdd Flaengynllun y Bwrdd.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/5.3** | **Papurau Preifat y Bwrdd** |

Dim.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/5.4** | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Cymru** |

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad Blynyddol Archwilio Cymru.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.01.30/6** | **Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf** |

Diolchodd PB i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 26 Mawrth 2025.

Daeth y cyfarfod i ben am **14:25**.

Wedi'i Gadarnhau